# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 17 Ionawr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 112(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fuddsoddiad £2.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn TVR?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

**NDM6630 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mandy Jones (Annibynnol) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

## 5 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod

(30 munud)

**NDM6576 Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil Parhad i Gymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai cadarnhau bod yr holl bynciau a oedd yn rhan o gyfraith yr UE yn parhau o fewn cyfraith Cymru lle bônt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Cymru 2017.

**Cefnogwyr:**

Adam Price (Dwyrain Casnewydd a Dinefwr)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
Leanne Wood (Rhondda)
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)
Sian Gwenllian (Arfon)
Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6565**

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Leanne Wood (Rhondda)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod tystiolaeth glinigol o effeithiolrwydd canabis at ddibenion meddyginiaethol.

2. Yn cydnabod, er mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle mae'r cyffur rheoli symptomau canabinoid Sativex ar gael ar y GIG, ei fod dim ond wedi'i drwyddedu i drin sbastigedd ac yna dim ond ar gael i grŵp bach o bobl sy'n byw gyda sglerosis ymledol (MS) ac sy'n bodloni'r meini prawf.

3. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU ailddyrannu canabis at ddibenion meddyginiaethol; ac, wrth baratoi ar gyfer y canlyniad hwn, y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y gellid sicrhau bod system o fewn y GIG lle gallai canabis at ddibenion meddyginiaethol fod ar gael drwy bresgripsiwn i'r rhai a allai elwa ohono.

4. Yn nodi:

a) bod llawer o bobl sy'n byw gyda chyflyrau fel sglerosis ymledol, dystonia, epilepsi a chanser yng Nghymru yn defnyddio canabis a gawsant yng anghyfreithlon at ddibenion meddyginiaethol ond, drwy wneud hynny, yn wynebu'r risg o gael eu herlyn a hefyd wynebu perygl o gyffuriau eraill;

b) bod y grŵp seneddol hollbleidiol ar ddiwygio'r polisi ar gyffuriau yn Nhŷ'r Cyffredin wedi galw'n bendant ar Lywodraeth y DU i gyfreithloni canabis meddygol yn seiliedig ar ganlyniadau ei ymchwiliad saith mis i'r mater a chanfyddiadau'r

adolygiad annibynnol o dystiolaeth fyd-eang o dan arweiniad yr Athro Michael P. Barnes;

c) bod nifer cynyddol o wledydd sy'n rheoleiddio canabis a deilliadau canabis at ddefnydd meddygol, megis Canada, yr Iseldiroedd, Israel a bod dros 20 talaith yn yr Unol Daleithiau yn rheoleiddio canabis gwair at ddefnydd meddygol;

d) bod nifer o wledydd, gan gynnwys yr Almaen a'r Swistir, yn galluogi cleifion i fewnforio canabis at ddefnydd meddygol o'r Iseldiroedd;

e) bod MS Society UK wedi newid ei safbwynt polisi i alw ar Lywodraeth y DU a chyrff iechyd i ddatblygu system sy'n cyfreithloni canabis at ddefnydd meddyginiaethol, yn sgil tystiolaeth gadarnhaol am ddefnyddio canabis i drin poen a spastigedd;

f) y cafodd Bil rheol 10 munud yr Aelod Seneddol dros Gasnewydd, Paul Flynn, ar gyfreithloni canabis at ddefnydd meddyginiaethol ei drosglwyddo'n ddiwrthwynebiad ar 10 Hydref i'r darlleniad nesaf ar 23 Chwefror 2018.

Report of the Inquiry of the All Party Parliamentary Group for Drug Policy Reform into medicinal cannabis (Saesneg yn unig)
Cannabis: The Evidence for Medical Use - Professor Michael P Barnes (Saesneg yn unig)
MS Society UK - Cannabis and MS (Saesneg yn unig)
Legalisation of Cannabis (Medicinal Purposes) Bill 2017-19 (Saesneg yn unig)

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Glystyrau Gofal Sylfaenol

(60 munud)

**NDM6624** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Glystyrau Gofal Sylfaenol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2018.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6625** **Lee Waters (Llanelli)**

Mae'r robotiaid yn dod - mae angen i Gymru gael cynllun ar gyfer awtomateiddio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10/01/2018 i'w hateb ar 17/01/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**Hefin David** *Caerffili*

1 OAQ51567 **TYNNWYD YN ÔL**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio anifeiliaid byw mewn syrcasau teithiol yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

2 OAQ51539

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl mewn tlodi tanwydd yng Nghymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

3 OAQ51570

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am leihau faint o ddeunydd pacio plastig a gaiff ei ddefnyddio?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

4 OAQ51554

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am les anifeiliaid yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

5 OAQ51545

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

6 OAQ51537

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â risg llifogydd yng ngogledd Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

7 OAQ51551

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau datblygu lleol yng Ngogledd Cymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

8 OAQ51572

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â datblygu cynllun llifogydd y Rhath yng Nghaerdydd?

**David Melding** *Canol De Cymru*

9 OAQ51548

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau nifer y tanau mewn safleoedd gwaredu gwastraff yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

10 OAQ51540

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o brosiect Cysylltiad Canobarth Cymru?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OAQ51568 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am barhad arian cyfalaf o dan gynllun Glastir?

**Lee Waters** *Llanelli*

12 OAQ51547

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth am ddatblygu defnydd diwydiannol amaethyddiaeth fanwl?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

13 OAQ51535

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr yn Sir Benfro dros y 12 mis nesaf?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

14 OAQ51543

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gwmpas o fewn y broses gynllunio i gymryd camau yn erbyn eiddo gwag yng nghanol trefi?

# Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Lynne Neagle** *Torfaen*

1 OAQ51574

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith diwygio lles yn Nhorfaen?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

2 OAQ51561

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ynghylch cyflymu cynlluniau tai yn Nwyrain De Cymru i roi ystyriaeth i ddileu tollau pontydd Hafren?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OAQ51565

Pa strategaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei dilyn i gefnogi gwasanaethau llywodraeth leol anstatudol yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

4 OAQ51546

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y byrddau gwasanaethau cyhoeddus?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

5 OAQ51544

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr amserlen ar gyfer adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar lwfansau ar gyfer aelodau etholedig o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

6 OAQ51534

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus lleol yn Sir Benfro?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

7 OAQ51575

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i gymdeithasau tai yn Nhorfaen wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

8 OAQ51555

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gydag arweinwyr llywodraeth leol yn dilyn cyhoeddi setliad llywodraeth leol Llywodraeth Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

9 OAQ51562

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y sefyllfa ddiweddaraf yng Nghyngor Tref Biwmares yn dilyn ymddiswyddiad hanner ei aelodau?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

10 OAQ51542

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddiwygio llywodraeth leol?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

11 OAQ51557

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch tegwch y fformiwla ariannu ar gyfer 22 o gynghorau Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

12 OAQ51564 **Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y gallai Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) wella pa mor agored a thryloyw yw prosesau cyrff cyhoeddus yng Nghymru o ymdrin â chwynion?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

13 OAQ51536

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu rôl y trydydd sector yn y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

14 OAQ51552

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector gwirfoddol yn Abertawe?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

15 OAQ51566 **Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effeithiolrwydd ymgyrchoedd i leihau nifer yr ymosodiadau gan gŵn ar weithwyr post?